



Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn croesawu'r cynlluniau gan y Gweinidog Addysg i ganiatáu i ysgolion sy'n gallu ailagor i ailagor yn ddiogel o'r wythnos gyntaf ym mis Medi, gyda'r holl ysgolion yn ailagor erbyn Medi 14.

Mae cynlluniau a pharatoadau lleol ar waith rhwng yr Adran Addysg ac ysgolion yr ynys i adolygu asesiadau risg, prosesau a systemau i sicrhau y gall ysgolion unigol groesawu disgyblion yn ôl yn ddiogel yn unol ag arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Bydd ysgolion sy'n gallu ailagor yn ailagor o wythnos gyntaf y tymor, o bosib drwy fabwysiadu dull dychwelyd yn raddol a blaenoriaethu grwpiau penodol o ddysgwyr / grwpiau blwyddyn yn ystod y bythefnos gyntaf. Bydd rhieni yn derbyn gwybodaeth fanylach gan eu hysgol a Chyngor Sir Ynys Môn fel y daw ar gael.

O Fedi 14, bydd presenoldeb yn yr ysgol yn orfodol. Bydd gofyn i rieni gysylltu â'r ysgol os na all disgybl fynychu er mwyn trafod ymhellach. Bydd hyn yn golygu bod y ddarpariaeth Hwb Gofal Plant ar gyfer gweithwyr allweddol yn dod i ben.

Dywedodd Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Môn, Rhys Howard Hughes:

“Rydym yn croesawu cyhoeddiad y Gweinidog Addysg ac edrychwn ymlaen at weld plant Môn yn dychwelyd i'w hystafelloedd dosbarth ym mis Medi.”

“Fodd bynnag, mae ein ffocws ar hyn o bryd yn parhau i fod ar weithio â phob ysgol i sicrhau bod disgyblion – o ddydd Llun 13eg o Orffennaf – yn cael cyfle i gymryd rhan yng nghynlluniau “Ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a Medi’ Llywodraeth Cymru. Yn anffodus, mae’n bosib na fydd hyn yn digwydd ar 29 Mehefin yn sgil y nifer fawr o achosion Coronafeirws yn y ffatri Two Sisters yn Llangefni.”

“Mae ein paratoadau ar gyfer mis Medi wrth gwrs wedi hen gychwyn. Mae cydweithrediad ardderchog wedi bod rhwng yr holl ysgolion a Gwasanaeth Addysg y Cyngor Sir yn y misoedd diwethaf, ac rwy'n hyderus y bydd hyn yn parhau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i sicrhau fod staff ysgolion yn dychwelyd i amgylchedd dysgu diogel.”

Hoffa Cyngor Sir Ynys Môn ddiolch i bawb am eu cydweithrediad, eu dealltwriaeth a'u gwaith caled yn ystod y misoedd diwethaf. Mae wedi bod yn gyfnod heriol iawn i'r holl ddisgyblion, rhieni / gofalywyr a'r staff sy'n gweithio yn ein hysgolion.